nid yn unig y tu fewn i furiau'r ysgol ond i'r pentref a'r ardal gyfan, wastad yn barod i helpu bob achos a gweithgaredd. Cafwyd cydweithrediad hapus rhyngddo â'i gydweithwyr gan greu naws gartrefol yn yr ysgol. Difyr a diddorol yw atgofion pawb fu'n ymwneud ag ef yn ystod ei gyfnod yn y Penrhyn - yr holl straeon, y tynnu coes, y digwyddiadau a'r troeon trwstan fu'n rhan annatod o fywyd yr ysgol mewn cyfnod o newidiadau aruthrol o fewn y byd addysg. Ond "er gwaethaf pawb a phopeth" daliodd Alun i wenu gan gymryd popeth fel y deuai a rhoi pob cyfle posibl i'r plant brofi ystod eang o weithgareddau.

Ei brif ddiddordebau oedd chwaraeon a cherddoriaeth. Roedd ei frwdfrydedd ar y maes chwarae yn heintus ac yn amlach na pheidio byddai'n ymlâdd yn llwyr wrth geisio cael y gorau allan o'r plant, boed mewn gêm bêl-droed, parti dawnsio gwerin neu gôr.

Ar drothwy ei ymddeoliad dymunwn iechyd iddo i fwynhau seibiant haeddiannol yng nghwmni ei deulu wedi cyfnod hir o ddysgu. Bellach bydd ganddo ddigon o amser i baratoi ei hoff bryd bwyd - cinio dydd Sul, gwrando ar gerddoriaeth glasurol a chanu corawl, perffeithio ei ddawn fel unawdydd lleisiol neu chwarae golff. Ond yr uchelgais fawr mae'n debyg fydd gwireddu ei syniad ef o "nefoedd" - sef arwain Côr Pen-dam i fuddugoliaeth yn y Genedlaethol!!!

Pob hwyl a bendith i'r dyfodol.

**E.E.**